

Llacio'r Cyfyngiadau ar ein Cymdeithas a'n Heconomi

Coronafeirws (COVID-19): Canllawiau ar gyfer ailagor safleoedd naturiol a diwylliannol awyr agored at ddibenion hamdden

Dyddiad y ddogfen: 1 Mehefin 2020

Fersiwn 1

Nodyn: Oherwydd sefyllfa sy'n datblygu o hyd, efallai y bydd angen diweddarau'r canllawiau hyn yn rheolaidd. Sicrhewch eich bod yn cadw llygad ar [wefan](#) Cyfoeth Naturiol Cymru i weld y fersiwn ddiweddaraf.



Ymwadiad: Dyma ganllawiau cynghorol wedi'u drafftio gan Cyfoeth Naturiol Cymru gyda mewnbwn gan y sefydliadau uchod. Nid ydym yn derbyn unrhyw atebolrwydd na chyfrifoldeb am unrhyw golled neu niwed y gall defnyddiwr allanol ei ddioddef oherwydd defnyddio unrhyw ran o'r wybodaeth yn y ddogfen hon.

Cynnwys

| | |
|---|----|
| Crynodeb gweithredol | 3 |
| Cwmpas y canllawiau | 5 |
| Cyd-ddibyniaethau | 6 |
| Strwythur | 6 |
| Adran 1: Pryd i agor safleoedd | 7 |
| Dyletswyddau penodol ar fynediad cyhoeddus | 8 |
| Busnesau, clybiau ac elusennau sy'n defnyddio safleoedd naturiol a diwylliannol awyr agored | 9 |
| Cynllunio ar gyfer ailosod cyfyngiadau'n gyflym | 10 |
| Adran 2: Sut i agor safleoedd | 11 |
| Cynllunio ar gyfer risg ac adfer | 11 |
| Defnyddio dull cymesur | 12 |
| Rhagor o ganllawiau | 13 |
| Adran 3: Pwy sydd angen cyfranogi a chael gwybod? | 15 |
| Ymgysylltu â'r gymuned | 15 |
| Negeseuon craidd | 15 |
| Cyfathrebu Cenedlaethol | 16 |
| Cyfathrebu lleol neu ar safleoedd | 17 |
| Atodiad 1: Crynodeb o weithgareddau sectoraidd yn ystod pob cam | 18 |
| Atodiad 2: Matrics Rheoli Risg y Grŵp Diogelwch Ymwelwyr | 20 |

Crynodeb gweithredol

Ar y cyd, mae safleoedd naturiol a diwylliannol awyr agored yn chwarae rôl sylweddol wrth ddarparu mannau i bobl ymarfer corff, dysgu ac ymlacio ynddynt. Fel rheolwyr y safleoedd hyn, a'r cefn gwlad ehangach, rydym oll am sicrhau bod yr adnodd hwn ar gael i bobl wrth iddynt adfer a symud yn ôl tuag at batrwm bywyd mwy arferol, ond rydym yn cydnabod ei fod yn hanfodol sicrhau nad yw'n cael effaith negyddol ar ein cymunedau a'r gwaith o ynysu'r feirws COVID-19.

Mae'r canllawiau cynghorol hyn yn cyd-fynd â'r gyfres ehangach o wybodaeth a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru wrth baratoi ar gyfer lleihau cyfyngiadau symud y cyhoedd yn raddol. Maent wedi cael eu datblygu gan reolwyr mynediad cyhoeddus i safleoedd naturiol a diwylliannol awyr agored, gan ddefnyddio dealltwriaeth gyffredin a rhannu arfer gorau. Maent yn bwriadu cyd-fynd â phrotocolau a phrosesau sefydledig sefydliadau unigol.

Rhennir y canllawiau'n dair adran sy'n cynnwys yr elfennau pryd, sut a phwy mewn perthynas ag agor safleoedd naturiol a diwylliannol awyr agored wrth i'r cyfyngiadau lacio. Dyma'r egwyddorion arweiniol:

Pryd i agor safleoedd wrth i'r cyfyngiadau godi:

- Y mwyaf o broffil sydd gan y safle fel cyrchfan ymwelwyr, yr hwyraf drwy'r camau goleuadau traffig y bydd yn cael ei ailagor.
- Unwaith y bydd cyfyngiadau'n cael eu codi y tu hwnt i 'deithio'n lleol' ar gyfer 'hamdden awyr agored' yn unig i sefyllfa lle caniateir teithio ymhellach, efallai y bydd yn synhwyrol ailagor meysydd parcio i osgoi pwysau ar gymunedau lleol oherwydd parcio heb ei reoleiddio ar ffyrdd.
- Caiff penderfyniadau am ddiwygio cyfyngiadau mynediad cyfreithiol a osodwyd gan awdurdodau perthnasol eu gwneud yn lleol ond byddant yn dilyn yr egwyddor y bydd y safleoedd proffil uchaf yn fwy tebygol o gael eu rhyddhau olaf.
- Bydd yn rhaid i reolwyr safle fod yn hyderus y gall gweithredwyr allanol sy'n defnyddio'u safleoedd gynnal eu gweithgareddau yn unol â phrotocolau diogelwch.
- Dylai rheolwyr safle baratoi cynlluniau ar gyfer ail-gau safleoedd os bydd mwy o achosion cenedlaethol neu ranbarthol o COVID-19.

Sut i agor safleoedd wrth i'r cyfyngiadau godi:

- Gallai gymryd oddeutu 14 diwrnod i rai o'r safleoedd baratoi i ailagor o ddyddiad cyhoeddi'r newidiadau yn rheoliadau a chanllawiau atodol Llywodraeth Cymru.
- Yng nghyd-destun egwyddorion y Grŵp Diogelwch Ymwelwyr, byddai ond angen i reolwyr ystyried hwyluso cadw pellter cymdeithasol mewn ardaloedd neu fannau cyfyng lle mae pobl yn cynnull yn naturiol mewn niferoedd mawr (e.e. meysydd parcio, golygfannau).

Pwy sydd angen cyfranogi a derbyn gwybodaeth wrth i safleoedd gael eu hagar:

- Dylai'r holl gyfathrebu fod yn gyson â [Rheoliadau](#) a [Chanllawiau](#) COVID-19 Llywodraeth Cymru: ni ddylai rheolwyr safle ddatblygu eu dehongliadau eu hunain.

- Dylai cyfathrebu cenedlaethol a lleol neu gyfathrebu ar safleoedd ystyried cyfeirio at ganllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru, parchu cymunedau lleol, cyfrifoldeb dros ddiogelwch personol, cadw pellter cymdeithasol a mesurau hylendid.

Cwmpas y canllawiau

Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â [Rheoliadau](#) a [Chanllawiau](#) COVID-19 Llywodraeth Cymru a dylid ildio i'r rhain ar bob adeg. **Canllawiau cynghorol** ydynt, gyda'r bwriad o gyd-fynd â'r gyfres ehangach o wybodaeth a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru i helpu i baratoi ar gyfer llacio graddol ar gyfyngiadau symud y cyhoedd. Maent wedi cael eu datblygu gan reolwyr **safleoedd naturiol a diwylliannol awyr agored** yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin a rhannu arfer gorau ar reoli **hamdden awyr agored**. Gall y canllawiau hyn hefyd gael eu defnyddio gan berchnogion preifat sy'n rheoli safleoedd naturiol a diwylliannol awyr agored sydd ar agor i'r cyhoedd.

Fel rheolwyr, rydym oll am sicrhau bod y safleoedd hyn ar gael i bobl wrth iddynt symud yn ôl tuag at batrwm bywyd mwy arferol, ond rydym yn cydnabod ei fod yn hanfodol sicrhau nad yw ailagor safleoedd yn cael effaith negyddol ar ein cymunedau a'r gwaith o ynysu'r feirws COVID-19.

Diffiniad o safleoedd naturiol a diwylliannol awyr agored

Yng nghyd-destun y canllawiau hyn, safleoedd naturiol a diwylliannol yw **mannau awyr agored** wedi'u rheoli ar gyfer mynediad cyhoeddus, fel arfer gan sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Mae hyn yn cynnwys, ymhlith eraill, awdurdodau lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cadw, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yr Ymddiriedolaethau Natur, Coed Cadw, y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar a Dŵr Cymru. Mae'r safleoedd hyn a reolir gan y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yn cynnwys parciau, gerddi, coetir, gwarchodfeydd natur, traethau ac ardaloedd uwchdir. Caewyd llawer o'r seilwaith i ymwelwyr (meysydd parcio, toiledau, canolfannau ymwelwyr ac ati) yn y safleoedd hyn pan ddechreuodd Cymru gyda'r cyfyngiadau symud i helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng COVID-19.

Mae hefyd 56,136 km o hawliau tramwy a 743,918 hectar o dir mynediad agored yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain wedi parhau ar agor am fynediad lleol drwy gydol cyfnod y cyfyngiadau symud. Fodd bynnag, tynnwyd rhai o'r hawliau cyhoeddus hyn yn ôl, yn bennaf mewn lleoliadau proffil uchel mewn parciau cenedlaethol dan *Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020*, i ddangos bod y cyrchfannau ar gau ac osgoi ailadrodd y torfeydd digynsail oherwydd ymwelwyr o bell a ddigwyddodd ar benwythnos 22 Mawrth 2020. Mae'r canllawiau hyn hefyd yn edrych ar y cyrchfannau proffil uchel hyn a sut byddan nhw'n cael eu hailagor.

Diffiniad o hamdden awyr agored

Yng nghyd-destun y canllawiau hyn, mae hamdden awyr agored yn cynnwys gweithgareddau hamdden cyffredinol, ymarfer corff yn yr awyr agored, gweithgareddau grŵp a digwyddiadau a drefnir.

Egwyddor arweiniol

Mae gan bob un o'r sefydliadau sydd wedi cyfrannu at y ddogfen hon eu protocolau a phrosesau eu hunain o ran ailagor safleoedd. Nid bwriad y ddogfen hon yw gorchymyn

camau gweithredu rheolwyr lleol ond rhoi dealltwriaeth ar y cyd o'r ffactorau allweddol sy'n llywodraethu'r broses o wneud penderfyniadau a rhannu arfer gorau.

Cyd-ddibyniaethau

Mae'r canllawiau hyn yn cefnogi ac yn cydymffurfio â system goleuadau traffig Llywodraeth Cymru, sef [Llacio'r cyfyngiadau ar ein cymdeithas a'n heconomi](#), yn arbennig o ran yr agweddau canlynol:

- **Ymarfer corff, chwaraeon a gemau:** Wrth i gyfyngiadau ar fathau o weithgareddau a digwyddiadau godi, bydd mwy o gystadleuaeth am le ac adnoddau ar safleoedd naturiol a diwylliannol awyr agored.
- **Teithio yma ac acw:** Wrth i gyfyngiadau teithio godi, bydd mwy o alw am fynediad i safleoedd naturiol a diwylliannol awyr agored a'r cefn gwlad ehangach.
- **Gweld teulu a ffrindiau:** Wrth i gyfyngiadau ar bobl yn cwrdd godi, bydd yn bosib gwneud mwy o weithgareddau grŵp a chymdeithasol ar safleoedd naturiol a diwylliannol awyr agored.
- **Ymlacio ac achlysuron arbennig:** Bydd mwy o safleoedd naturiol a diwylliannol awyr agored yn gallu agor wrth i'r cyfyngiadau godi.
- **Gweithio neu gynnal busnes:** Bydd gweithrediadau masnachol am aildddechrau wrth i gyfyngiadau godi.

Mae'r canllawiau hyn hefyd yn cyd-fynd â'r canllawiau ar chwaraeon a hamdden, y canllawiau ar gyfer twristiaeth, a'r canllawiau ar gyfer lleoliadau diwylliannol a threftadaeth. Mae'r dogfennau hyn ar gael [yma](#).

Strwythur

Rhennir y canllawiau'n dair adran sy'n cynnwys yr elfennau pryd, sut a phwy mewn perthynas ag agor safleoedd naturiol a diwylliannol awyr agored wrth i'r cyfyngiadau lacio:

- **Adran 1: Pryd** i agor safleoedd wrth i'r cyfyngiadau godi
- **Adran 2: Sut** i agor safleoedd wrth i'r cyfyngiadau godi
- **Adran 3: Pwy** sydd angen cyfranogi a derbyn gwybodaeth wrth i safleoedd gael eu hagor

Mae crynodeb dros dro o weithgareddau bwriadedig y sector hwn yn ystod pob cam o gamau 'goleuadau traffig' amlinellol Llywodraeth Cymru ar gael yn [Atodiad 1](#).

Adran 1: Pryd i agor safleoedd

Mae amseru'n egwyddor hanfodol er mwyn ailagor ar ôl codi'r cyfyngiadau symud. Mewn ymateb i'r cyfyngiadau symud ar deithio, gwnaeth y rhan fwyaf o reolwyr safleoedd naturiol a diwylliannol awyr agored gau eu meysydd parcio a chyfleusterau eraill i ymwelwyr.

Bydd y galw i ailagor safleoedd yn cynyddu wrth i'r cyfyngiadau ar deithio godi. Fodd bynnag, bydd cydbwysedd i'w ystyried rhwng mwy o gyfleoedd i gymunedau lleol gael mynediad i safleoedd naturiol a diwylliannol awyr agored a chynyddu'r risg o drosglwyddo'r feirws rhwng ardaloedd. Er mwyn cadw at ddull goleuadau traffig Llywodraeth Cymru, rydym yn argymhell y dylai rheolwyr safle ystyried statws eu safleoedd wrth iddynt gynllunio ailagor, yn seiliedig ar y sbectrwm canlynol:

- 1. Mynediad lleol:** Mynediad cyhoeddus sy'n cysylltu cymunedau â'u hamgylchedd naturiol.
- 2. Cyrchfannau proffil rhanbarthol:** Cyrchfannau natur a diwylliannol lleol neu ranbarthol poblogaidd.
- 3. Cyrchfannau proffil cenedlaethol:** Safleoedd sydd â sail drawsffiniol ehangach ar gyfer ymwelwyr ac sy'n aml yn cael eu hyrwyddo'n genedlaethol.
- 4. Cyrchfannau ymwelwyr byd-enwog:** Y safleoedd â'r proffil uchaf yng Nghymru ac sy'n cael eu hyrwyddo fwyaf. Safleoedd a gydnabyddir yn rhyngwladol.

Mae rhai eithriadau'n berthnasol i sawl un o'r mathau hyn, fel Llwybr Arfordir Cymru a'r Llwybrau Cenedlaethol, sy'n gyrchfannau ymwelwyr byd-enwog ag adrannau hynod brysur (e.e. Abereiddi) a rhannau llawer tawelach.

Egwyddor arweiniol

Y mwyaf o broffil sydd gan y safle fel cyrchfan ymwelwyr, yr hwyraf drwy'r camau goleuadau traffig y bydd yn debygol o gael ei ailagor. Yn bennaf, mae hyn yn ymwneud â nifer yr ymwelwyr sy'n cael eu denu gan safleoedd, ond mae hefyd am symbolaeth agor y safleoedd proffil uchaf a allai sbarduno symudiad torfol pobl drwy Gymru.

Dyma egwyddor gyffredinol, ond mae'n bwysig bod penderfyniadau a chynlluniau ar gyfer ailagor yn cael eu gwneud yn rhanbarthol a'u bod yn sensitif i safbwyntiau cymunedol hysbys. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn ardaloedd o amgylch safleoedd proffil uwch. Dyma rai o'r ffactorau allweddol o ran cynllunio:

- Y canllawiau canolog gan Lywodraeth Cymru ar y cyfyngiadau ar deithio a gweithgareddau.
- Cyngor yr heddlu, fel yr awdurdod gorfodi.
- Y gallu i sefydliadau roi mesurau ar waith i hwyluso cadw pellter cymdeithasol.
- Effeithiau y mae cadw'r safle ar gau yn eu cael ar y gymuned (h.y. problemau parcio ac ymddygiad gwrthgymdeithasol oherwydd ymwelwyr yn cyrraedd safle heb wybod ei fod dal ar gau).

- Cyfathrebu â rheolwyr safleoedd naturiol a diwylliannol awyr agored eraill i sicrhau bod y safleoedd yn agor 'ar y cyd' â'i gilydd i osgoi baich ychwanegol ar y safleoedd sy'n agor yn gyntaf.

Y **pwytiau sbarduno** allweddol a fydd yn effeithio ar amseru'r safle'n ailagor yw llacio'r rheolau ar allu pobl i yrru ar gyfer chwaraeon a hamdden:

- Pan fydd “*teithiau lleol*” yn cael eu caniatáu ar gyfer “*hamdden awyr agored*”, gall cyrchfannau naturiol a diwylliannol awyr agored sy'n boblogaidd yn lleol ac yn rhanbarthol ddechrau ailagor. **Coch**
- Pan fydd “*teithio at ddibenion hamdden, i ddefnyddio gwasanaethau a manwerthu nad ydynt yn hanfodol*”, bydd y rhan fwyaf o safleoedd naturiol a diwylliannol awyr agored yn debygol o agor. **Oren**
- Mae'n debygol y bydd rhai cyrchfannau ymwelwyr byd-enwog yn parhau i fod ar gau nes bod “*teithio digyfyngiad yn amodol ar gamau diogelu parhaus*”. **Gwyrdd**

(Daw'r dyfyniadau uchod o adran 'Teithio yma ac acw' canllawiau [Llacio'r cyfyngiadau ar ein cymdeithas a'n heconomi.](#))

Egwyddor arweiniol

Unwaith y bydd cyfyngiadau'n cael eu codi y tu hwnt i 'deithiau lleol' ar gyfer 'hamdden awyr agored' i sefyllfa lle caniateir teithio ymhellach, efallai y bydd yn synhwyrol ailagor meysydd parcio i osgoi pwysau ar gymunedau lleol o amgylch safleoedd (e.e. parcio anghyfrifol ar lonydd bychain, sbwriel ac ati).

Dyletswyddau penodol ar fynediad cyhoeddus

Mae *Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020* yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i gau llwybrau troed cyhoeddus a thir penodol lle mae'r awdurdodau'n ystyried:

- ei bod yn debygol y bydd niferoedd mawr o bobl yn ymgasglu neu y byddant yn agos at ei gilydd, neu
- y mae eu defnydd yn peri risg uchel o achosion o'r coronafeirws neu ei ledaenu yn yr ardal lleol.

I gefnogi cau'r tir a llwybrau hyn, mae'r rheoliadau'n cynnwys dyletswyddau i hysbysu'r cyhoedd fod y tir/llwybrau wedi cau a chyflwyno trefniadau gorfodi cyffredin sy'n berthnasol i'r holl ardaloedd. Bydd y tir/llwybrau sydd ar gau o dan y ddyletswydd hon yn cael eu hadolygu'n barhaus gan awdurdodau perthnasol a'u diwygio fel y bo angen. Mae hyn wedi cael ei roi ar waith mewn rhai rhannau o Gymru yn unig (e.e. yr Wyddfa, Pen y Fan) lle mae pryder am niferoedd mawr o bobl yn ymgasglu, gan adael cymaint o fynediad cyhoeddus â phosib ar agor fel bod pobl yn gallu ymarfer corff o garreg eu drws.

Egwyddor arweiniol

Caiff penderfyniadau am ddiwygio cyfyngiadau a osodwyd gan awdurdodau perthnasol o dan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) 2020 eu gwneud yn lleol ond byddant yn dilyn yr egwyddor mai'r safleoedd proffil uchaf fydd yn debygol o gael eu hagor olaf.

Busnesau, clybiau ac elusennau sy'n defnyddio safleoedd naturiol a diwylliannol awyr agored

Mae safleoedd naturiol a diwylliannol awyr agored â mynediad cyhoeddus yn cael eu defnyddio gan lawer o fusnesau, clybiau ac elusennau i wneud gweithgareddau grŵp neu fasnachol. Gall hyn amrywio o ymweliadau addysgol i weithgareddau dan arweiniad a digwyddiadau torfol.

Efallai bydd yn bosib gwneud rhai gweithgareddau clwb lleol ar y cam Coch os unigolion sy'n cymryd rhan, ond mae'n debygol y bydd y rhan fwyaf o weithgareddau yn parhau i fod yn gyfyngedig. Yn ystod pob cam o'r cyfyngiadau symud, dylai rheolwyr gofio y gall newidiadau ddylanwadu ar nifer y busnesau, clybiau ac elusennau sy'n ceisio defnyddio'u safleoedd. Er enghraifft, adrannau canlynol y canllawiau [Llacio'r cyfyngiadau ar ein cymdeithas a'n heconomi](#):

- **Ymarfer corff, chwaraeon a gemau:** "Gweithgareddau mewn grwpiau bach a rhai digwyddiadau awyr agored gyda chyfyngiad ar nifer y bobl" **Melyn**. "Agor pob gweithgaredd chwaraeon, hamdden a diwylliannol gan gadw pellter corfforol, ac ailddechrau cynnal pob digwyddiad gyda chyfyngiad ar nifer y bobl" **Gwyrdd**.
- **Gweithio neu gynnal busnes:** "Ailagor manau manwerthu nad ydynt yn hanfodol gan gadw pellter corfforol", "rhai gwasanaethau personol drwy apwyntiad" ac "agor busnesau llety heb gyfleusterau a rennir". **Melyn**. "Agor pob busnes a gweithle o dan brotocolau newydd" **Gwyrdd**.
- **Addysg a gofal plant:** "Grwpiau o ddisgyblion â blaenoriaeth i ddychwelyd i'r ysgol yn raddol" **Melyn**. "Pob plentyn a myfyriwr yn gallu cael at gyfleusterau addysg" **Gwyrdd**.
- **Teithio yma ac acw:** Mae angen i gyfyngiadau teithio gael eu codi'n llawn ar rai busnesau cyn iddynt allu bod yn hyfyw unwaith eto.

Mae cyd-ddibyniaeth allweddol yma hefyd gyda chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer [addysg a gofal plant](#), y canllawiau ar chwaraeon a hamdden [yma](#), a'r canllawiau ar gyfer twristiaeth [yma](#).

Egwyddor arweiniol

Efallai fod gan reolwyr safleoedd naturiol a diwylliannol ddyletswydd gofal ar gyfer grwpiau, digwyddiadau neu weithgareddau masnachol ar eu safleoedd. Bydd angen i'r rheolwyr safle fod yn hyderus y gall y gweithredwyr gynnal eu gweithgareddau yn unol â phrotocolau diogelwch, gan gynnwys cadw pellter cymdeithasol, cyn penderfynu a all gweithgareddau ailddechrau.

Cynllunio ar gyfer ailosod cyfyngiadau'n gyflym

Mae angen i reolwyr safleoedd ystyried pa mor hawdd y bydd i gau safle'n gyflym. Dylid ystyried system goleuadau traffig Llywodraeth Cymru fel **proses ddwyffordd**, sy'n amlinellu llacio cyfyngiadau lle y bo'n briodol, ond sy'n paratoi sefydliadau i ymateb os bydd y sefyllfa'n gwaethygu unwaith eto.

Egwyddor arweiniol

Dylai rheolwyr safleoedd baratoi cynlluniau ar gyfer ail-gau safleoedd os bydd mwy o achosion cenedlaethol neu ranbarthol o COVID-19.

Adran 2: Sut i agor safleoedd

Mae angen i reolwyr safleoedd roi cynlluniau ar waith i ailagor safleoedd wrth i'r cyfyngiadau symud godi. Bydd angen i sefydliadau â staff ar ffyrlo gynllunio o amgylch y rheolau ffyrlo er mwyn dod â staff yn ôl i'r gwaith. Mae problem benodol lle mae arian i staff yn dibynnu ar agor gwasanaethau masnachol ar safleoedd (siopau, caffis ac ati). Felly, efallai na fydd rhai sefydliadau'n gallu ymateb mor gyflym, yn enwedig y rheiny sydd wedi'u heffeithio'n wael yn ariannol gan COVID-19.

Egwyddor arweiniol

*Gallai gymryd oddeutu **14 diwrnod** o gyhoeddi newidiadau yn rheoliadau Llywodraeth Cymru a chanllawiau atodol i'r adeg lle gall safle naturiol a diwylliannol awyr agored allu ailagor, os bydd modd iddo wneud hynny o gwbl. Dim ond ar ôl paratoi i groesawu ymwelwyr yn ôl y dylai sefydliadau agor eu safle.*

Cynllunio ar gyfer risg ac adfer

Ni waeth bwth yw'r math o sefydliad, mae angen gwneud paratodau cyn y gall meysydd parcio a seilwaith arall i ymwelwyr gael eu hailagor. Mae hyn yn cynnwys cynnal asesiad risg i nodi mesurau synhwyrol i reoli risgiau ar safle, neu gan y gwasanaethau a ddarperir yno. Bydd eich asesiad risg yn eich helpu i benderfynu a ydych wedi mynd i'r afael â'r holl bwyntiau angenrheidiol.

Mae'r canllawiau hyn yn defnyddio gwaith y Grŵp Diogelwch Ymwelwyr fel sail i'r dull awgrymedig. Sefydliad nid-er-elw yn y DU ac Iwerddon yw'r Grŵp Diogelwch Ymwelwyr, wedi'i greu ym 1997, i ddatblygu dull cyson o reoli diogelwch ymwelwyr. Mae ei aelodau'n sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector sy'n ymrwymedig i ddiogelu a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig hanesyddol wrth annog mynediad i'r cyhoedd. I gael rhagor o fanylion, ewch i wefan y [Grŵp Diogelwch Ymwelwyr](#).

Mae'r Grŵp Diogelwch Ymwelwyr yn annog dull cymesur o reoli risg mewn mannau awyr agored, gyda'r egwyddorion canlynol sy'n cael eu cefnogi gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch:

- Mae'n bwysig taro cydbwysedd rhwng hunanddibyniaeth ymwelwyr ac ymyrraeth gan reolwyr.
- Mae'n rhesymol disgwyl i rieni, gwarcheidwaid ac arweinwyr oruchwylio'r bobl dan eu gofal.
- Mae'n rhesymol disgwyl i ymwelwyr arfer cyfrifoldeb drostynt eu hunain.
- Mae'n rhesymol disgwyl i ymwelwyr beidio â rhoi pobl eraill mewn perygl.

Mae'r Grŵp Diogelwch Ymwelwyr wedi creu [Matrics Rheoli Risg](#) fel ffordd o esbonio eu dull cymesur o reoli risg ar safleoedd naturiol a diwylliannol awyr agored. Model wedi'i symleiddio ydyw i helpu rheolwyr sy'n meddwl am lefel yr ymyrraeth gan reolwyr sy'n briodol i'r math o safle dan sylw. Mae'n bwysig nodi nad yw'n ymdrin â'r holl sefyllfaoedd a all ddigwydd ar safle.

Rydym yn argymhell bod rheolwyr safleoedd naturiol a diwylliannol awyr agored yn ystyried [Canllawiau Cynllunio ar gyfer Adfer](#) y Grŵp Diogelwch Ymwelwyr wrth iddynt baratoi i'w safleoedd ailagor. Cofiwch y dylai **defnyddio'r mesurau hyn fod yn gymesur â natur eich safle** (fel a amlinellir uchod).

Rhennir y [Canllawiau Cynllunio ar gyfer Adfer](#) fel a ganlyn:

- **Adran A: Ystyriaethau cyffredinol**
Gwybodaeth gyd-destunol am COVID-19 fel ffactor risg penodol.
- **Adran B: Teithio i'r gwaith ac oddi yno**
Arfer da o ran teithio sy'n ymwneud â busnes neu ar gyfarwyddyd y cyflogwr.
- **Adran C: Asesu safleoedd**
Prosesau ar gyfer asesu addasrwydd safleoedd a pharodrwydd ar gyfer ailagor. Mae sôn penodol yma am sut i hwyluso mesurau cadw pellter cymdeithasol mewn mannau cyfyng ar safleoedd.
- **Adran Ch: Mesurau diogelwch cyffredinol i staff / gwirfoddolwyr / contractwyr**
Mesurau er mwyn diogelu staff, gwirfoddolwyr a chontractwyr, gan gynnwys cadw pellter cymdeithasol wrth wneud gwaith gweithredol ac adran ar addasiadau i weithdrefnau brys.
- **Adran D: Diogelwch wrth weithio ar safle – mesurau ychwanegol**
Protocol argymelledig sy'n benodol i COVID-19 ar gyfer gwneud gweithrediadau ar safle.
- **Adran Dd: Ymgysylltu â phobl**
Arferion gorau er mwyn croesawu ymwelwyr i'r safle. Cyfeiriad at elfen 'wyneb yn wyneb' cyfrifoldebau rheoli safleoedd.
- **Adran E: Ardaloedd dan do**
Dulliau awgrymedig ar gyfer rheoli cyfleusterau dan do i ymwelwyr. Cyfeiriad defnyddiol at fesurau hylendid mewn cyfleusterau toiled.
- **Adran F: Seilwaith awyr agored i ymwelwyr**
Cyngor lefel uchel ar fesurau rheoli sy'n gallu cael eu mabwysiadu gan reolwyr safleoedd naturiol a diwylliannol awyr agored.

Egwyddor arweiniol

Yng nghyd-destun egwyddorion y Grŵp Diogelwch Ymwelwyr, byddai rheolwyr ond yn gorfod ystyried y posibilrwydd ar gyfer hwyluso camau cadw pellter drwy arweiniad neu ymyriadau ymarferol ar y safle mewn ardaloedd neu fannau cyfyng lle mae pobl yn ymgynnull yn naturiol mewn grwpiau mawr (e.e. meysydd parcio, golygfannau). Nid yw hyn bob tro'n gyson dros safle cyfan. Mae'n rhesymol disgwyl i ymwelwyr ymddwyn yn gyfrifol, ac i gydymffurfio â gofynion cadw pellter.

Defnyddio dull cymesur

Oherwydd mai feirws newydd yw hwn sy'n newid yn gyflym, nid yw llawer yn hysbys o ran y ffordd mae'n cael ei drosglwyddo yn yr awyr agored. Mae'r Grŵp Cynghori Gwyddonol ar Argyfyngau (SAGE) [yn cynghori](#) bod “y risg o gael eich heintio yn yr awyr agored yn sylweddol is na'r tu mewn”. Felly, dylai rheolwyr safleoedd fod yn hyderus y gall y mesurau gael eu defnyddio mewn ffordd gymesur, yn unol â dull matrices y Grŵp Diogelwch Ymwelwyr a'r [Canllawiau Cynllunio ar gyfer Adfer](#).

Penderfyniad y rheolwr safle unigol yw sut orau i ddefnyddio mesurau cadw pellter cymdeithasol, gan ystyried protocol ei sefydliad a'i wybodaeth am y gymuned leol a defnydd o'r safle. Fodd bynnag, gallai dehongliad sylfaenol o natur gymesur canllawiau'r Grŵp Diogelwch Ymwelwyr fod fel a ganlyn:

- **Ardaloedd sydd wedi'u datblygu'n fawr (neu mewn 'mannau cyfyng' penodol)**
Arwyddion a mesurau cadw pellter cymdeithasol ar waith: Byddai'n rhesymol i ymwelwyr ddisgwyl fod mesurau ar waith i helpu i hwyluso cadw pellter cymdeithasol. Gallai'r rhain gynnwys y mesurau rheoli a amlinellir yn adran C.10 Canllawiau Cynllunio ar gyfer Adfer y Grŵp Diogelwch Ymwelwyr (e.e. systemau unffordd, creu pwyntiau mynediad ac allanfa mwy llydan, symud rhwystrau i roi mwy o le a gwelededd) yn ogystal â *chyfathrebu lleol neu safle* ychwanegol i hyrwyddo cadw pellter cymdeithasol. Gall rheolwyr safle hefyd ystyried cau ardaloedd lle na fyddai'n bosib gweithredu mesurau cadw pellter (e.e. cuddfannau adar, mannau chwarae naturiol, mannau picnic).
- **Ardaloedd sydd wedi'u datblygu'n gymedrol**
Arwyddion a rhai mesurau cadw pellter cymdeithasol: Byddai'n rhesymol i ymwelwyr ddisgwyl fod mesurau ar waith i helpu i hwyluso cadw pellter cymdeithasol (fel uchod) ond iddyn nhw ddilyn *cyfathrebu lleol neu ar safle* ac arfer mwy o gyfrifoldeb dros gadw pellter cymdeithasol iddyn nhw eu hunain a'r bobl maent yn gofalu amdanynt.
- **Ardaloedd nad ydynt wedi'u datblygu llawer**
Arwyddion yn unig: Mae'n rhesymol disgwyl i ymwelwyr ddilyn *cyfathrebu lleol neu ar safle* ac arfer cyfrifoldeb dros gadw pellter cymdeithasol iddyn nhw eu hunain a'r bobl maent yn gofalu amdanynt, yn unol â *chyfathrebu cenedlaethol*.
- **Ardaloedd annatblygedig**
Nid oes angen unrhyw ymyrraeth: Mae'n rhesymol disgwyl i ymwelwyr arfer cyfrifoldeb dros gadw pellter cymdeithasol iddyn nhw eu hunain a'r bobl maent yn gofalu amdanynt, yn unol â *chyfathrebu cenedlaethol*.

Rhagor o ganllawiau

Yn ogystal â'r canllawiau gan y Grŵp Diogelwch Ymwelwyr, rydym yn cynghori rheolwyr i adolygu'r canllawiau gan Lywodraeth y DU ar [Fannau Cyhoeddus Diogelach](#), sy'n cynnwys enghreifftiau o fesurau cadw pellter cymdeithasol mewn mannau trefol a mannau gwyrdd.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi darparu canllawiau manwl ar reoli lleoliadau diwylliannol a threftadaeth dan do, gyda gwybodaeth am leoliadau dan do ar safleoedd naturiol a diwylliannol awyr agored (e.e. toiledau a chanolfannau ymwelwyr). Gweler hefyd ganllawiau gan Lywodraeth Cymru ar chwaraeon a hamdden, yn arbennig y broses gam wrth gam o ailddechrau busnesau chwaraeon a hamdden. Bydd y ddwy ddogfen hyn ar gael [yma](#).

Mae [Canllawiau Lletygarwch y DU](#) hefyd yn ddefnyddiol er mwyn cyfeirio atynt ar gyfer gweithrediadau arlwygo.

Dylai rheolwyr safleoedd hefyd ystyried sut bydd ymwelwyr â nodweddion gwarchoddedig yn defnyddio'r safleoedd. Mae'r canllawiau hyn ar [fynediad lleiaf rhwystrol](#) yn adnodd da i'w ddefnyddio.

Adran 3: Pwy sydd angen cyfranogi a chael gwybod?

Mae cyfathrebu effeithiol yn genedlaethol ac yn lleol yn rhan hanfodol o ailagor safleoedd naturiol a diwylliannol awyr agored. Dylai pryderon a safbwyntiau cymunedau lleol fod yn ffactor wrth wneud penderfyniadau am bryd a sut i ailagor safle. Mae angen i gymunedau gael gwybod am unrhyw newidiadau o ran cael mynediad i safleoedd, ac mae angen i negeseuon am ymweld â safleoedd fod wedi'u teilwra'n briodol i gynulleidfaeoddd lleol a chenedlaethol.

Ymgysylltu â'r gymuned

Mae cyfyngu ar deithio wedi bod yn ddull allweddol er mwyn atal COVID-19 rhag cael ei ledaenu. Gall cymunedau lleol, yn enwedig y rheiny sy'n byw yn ardal cyrchfannau ymwelwyr proffil uchel, fod â phryderon o hyd am sut bydd llacio cyfyngiadau teithio pobl rhwng ardaloedd yn effeithio arnyn nhw. Mae'n bwysig i reolwyr safleoedd naturiol a diwylliannol awyr agored fod yn sensitif i safbwyntiau cymunedol wrth baratoi i ailagor. Efallai fod pryderon penodol y mae rheolwyr ymwelwyr yn gallu mynd i'r afael â hwy (e.e. rheoliadau traffig) a thrwy hwyluso mesurau cadw pellter cymdeithasol. Bydd y rhan fwyaf o ymwelwyr eisoes â chysylltiadau da â'u cymunedau lleol. Gallai ffurfiau eraill ar ymgysylltu gael eu cynnal drwy gynghorau tref, Fforymau Lleol Cymru Gydnerth a phartneriaethau busnes lleol.

Negeseuon craidd

Mae angen neges **gref a chyson** i'r rheiny sy'n ymweld â'r awyr agored, i roi eglurder i'r cyhoedd am yr hyn maent yn gallu ei wneud a'r hyn nad ydynt yn gallu ei wneud, yn ogystal â'u cyfrifoldebau personol. Mae hyn yn dod o dan y categorïau canlynol:

Teithio, math o weithgaredd a maint y grŵp

Y cyfyngiadau penodol a osodir gan gamau'r cyfyngiadau symud yw'r mwyaf newidiol, ond y mwyaf hanfodol i'r cyhoedd eu deall. Daw'r negeseuon hyn yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru a chânt eu diweddarau fel rhan o'u cylchred adolygu o **21 diwrnod**. Mae modd gweld y canllawiau diweddaraf ar [wefan](#) Llywodraeth Cymru. Cafwyd enghreifftiau o grwpiau'n datblygu eu dehongliadau eu hunain o ganllawiau Llywodraeth Cymru. Mae'n bwysig cofio y bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a lluoedd heddlu Cymru i lunio'i chanllawiau swyddogol, er mwyn sicrhau eu bod yn unol â'r dystiolaeth wyddonol ddiweddaraf a'i bod yn bosib eu gorfodi.

Egwyddor arweiniol

Dylai dulliau cyfathrebu fod yn gwbl gyson â [Rheoliadau](#) a [Chanllawiau](#) COVID-19 Llywodraeth Cymru; ni ddylai rheolwyr safle ddatblygu eu dehongliadau eu hunain.

Mesurau cadw pellter cymdeithasol a hylendid

Er y gall rhai agweddau ar y [rheol cadw pellter cymdeithasol](#) newid yn ystod camau'r cyfyngiadau symud (e.e. nifer y bobl sy'n gallu ymgasglu mewn un lle neu ymarfer corff

gyda'i gilydd), bydd egwyddorion sylfaenol cadw pellter cymdeithasol yn debygol o fod ar waith drwy gydol y pandemig COVID-19.

Yng nghyd-destun yr awyr agored, mae hyn yn cynnwys bod yn wylidwrs wrth ddefnyddio nodweddion adeiledig, fel gatiau neu reiliau, a defnyddwyr yn sicrhau bod ganddynt ffordd effeithiol o olchi neu ddiheintio eu dwylo. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn lleoliadau mwy ynysig, neu lle nad yw seilwaith ymwelwyr wedi gallu ailagor oherwydd materion o ran adnoddau sefydliadol. Gall mynd i'r toiled yn yr awyr agored hefyd beri problem hylendid benodol o ran COVID-19, yn arbennig ar safleoedd lle mae'r cyfleusterau ymwelwyr yn dal i fod ar gau.

Cyfrifoldeb dros ddiogelwch personol

Mae rhan o negeseuon craidd Llywodraeth Cymru o ran y gweithgareddau y dylai pobl ymgymryd â hwy yn yr awyr agored yn seiliedig ar y faich bosib y gallent eu peri i'r GIG petai damwain. Mae'n debygol y bydd rheoliadau a chynghor Llywodraeth Cymru am weithgareddau'n newid wrth i'r cyfyngiadau gael eu codi. Er bydd hyn yn newid y mathau o weithgareddau y mae modd ymgymryd â hwy mewn safleoedd naturiol a diwylliannol awyr agored neu yn y cefn gwlad ehangach, ni ddylai newid yr egwyddor sylfaenol y dylai pobl fod yn cymryd cyfrifoldeb dros eu diogelwch o ddifrif ac ystyried y pwysau y mae'r gwasanaethau brys oddi tanynt ar hyn o bryd.

Parch tuag at gymunedau lleol

Efallai dyma yw'r neges fwyaf hanfodol oll wrth i ymwelwyr ddechrau dychwelyd i safleoedd naturiol a diwylliannol awyr agored. Mae'r negeseuon cenedlaethol ynghylch ymddwyn yn gyfrifol yn yr awyr agored yn seiliedig ar y [Cod Cefn Gwlad](#). Yr hyn sy'n arbennig o bwysig ar yr adeg hon yw'r negeseuon ynghylch y canlynol:

- parcio mewn modd cyfrifol – yn enwedig os yw safle naturiol neu ddiwylliannol yn llawn neu ar gau
- bod yn barod i safle fod ar gau neu i'r cyfleusterau fod ar gau
- gadael gatiau fel yr oedden nhw a dilyn cyfarwyddiadau ar arwyddion
- peidio â gadael unrhyw arwyddion fod unrhyw un wedi bod yna a mynd â sbwriel gartref
- rheoli cŵn yn effeithiol, gan gynnwys ar dennyn ac o amgylch anifeiliaid fferm

Egwyddor arweiniol

Dylai cyfathrebu cenedlaethol a lleol neu gyfathrebu ar safleoedd ystyried cyfeirio at ganllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru, parchu cymunedau, cyfrifoldeb dros ddiogelwch personol, cadw pellter cymdeithasol a mesurau hylendid.

Cyfathrebu Cenedlaethol

Mae grŵp o gynrychiolwyr cyfathrebu o sefydliadau'r sector cyhoeddus, wedi'i gadeirio gan Croeso Cymru, yn cwrdd yn wythnosol i rannu arfer gorau ac i drafod a llunio datblygu negeseuon o amgylch y rheoliadau COVID-19, ac ailagor pethau wedyn. Mae'r gwaith hwn

wedi'i lywio gan ymchwil Croeso Cymru ac mae wedi'i ddylunio i ddarparu cipolwg manwl i deimladau mewn cymunedau yng Nghymru.

Mae angen i negeseuon fod yn unedig ar draws rhanddeiliaid i osgoi dryswch ac ystyried sefyllfaoedd unigol yr holl rhanddeiliaid. Mae cydbwysedd bregus rhwng cadw Cymru'n weladwy i'r bobl a hoffai ymweld eto yn y dyfodol a chynnig arweinyddiaeth a chefnogaeth i'r diwydiant twristiaeth. Mae Croeso Cymru'n gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid ac mae wedi rhannu gweithgareddau posib yn gamau, gan baratoi negeseuon wedi'u haddasu i gynulleidfaoedd a gweithredwyr.

Cyfathrebu lleol neu ar safleoedd

Dylai rheolwyr safleoedd allu arwain cyfathrebu'n lleol, gan ystyried cyd-destun a materion yr ardal honno, o fewn fframwaith y dull cyfathrebu cenedlaethol. Bydd hyn yn sicrhau bod negeseuon yn glir ac yn gyson ond yn caniatáu ymdrin â materion sy'n benodol i safle mewn ffordd amserol sydd wedi'i thargedu. Mae dwy brif ffordd y gellid gwneud hyn:

Cyfathrebu lleol drwy grwpiau defnyddwyr ar-lein a'r cyfryngau cymdeithasol

Yn ystod y cyfnod cadw pellter cymdeithasol hwn, y cyfryngau cymdeithasol sy'n prysur droi'r brif ffordd i bobl ymgysylltu â'u cymunedau. Gall hyn fod yn gymuned ddaearyddol neu gymuned o ddiddordeb. Maent i gyd yn cael eu cynrychioli ar y cyfryngau cymdeithasol drwy grwpiau neu'n gysylltiedig drwy dagio cyffredin.

Dylai rheolwyr safleoedd fonitro sianeli cyfryngau lleol perthnasol i gael gwybod am unrhyw weithgareddau eraill sy'n digwydd yn yr ardal ac i helpu i nodi unrhyw broblemau/pwysau a allai godi cyn iddynt ddigwydd ar y safle. Gall y llwyfannau hyn hefyd gael eu defnyddio i ddweud wrth gymunedau am unrhyw newidiadau i'r safle dan sylw, gan gynnwys y cyfleusterau sydd ar gael neu'r mesurau cadw pellter cymdeithasol sydd ar waith.

Arwyddion ar y safle

Yn gyffredinol, mae angen i ymwelwyr â safleoedd naturiol a diwylliannol awyr agored gael gwybod am unrhyw ofynion arnynt i ymddwyn mewn ffyrdd sy'n eu cadw'n ddiogel ac sy'n helpu i ddiogelu pobl eraill. Fel arfer, mae hyn yn cael ei wneud drwy arwyddion neu fyrddau dehongli ar y safle. Oherwydd bod nifer o'r negeseuon craidd sy'n gysylltiedig â'r argyfwng COVID-19 yn gyfyngedig o ran amser ac yn debygol o newid yn gyflym, mae angen gallu addasu'r cyfathrebu ar y safle. Dylid cadw ar yr egwyddorion canlynol wrth ddatblygu arwyddion:

- **Cadwch bethau'n glir** – Canolbwyntiwch ar y negeseuon craidd
- **Cadwch bethau'n fyr** – Peidiwch â gor-gymhlethu'r arwyddion â gormod o fanylion
- **Cadwch bethau'n gadarnhaol** – Cofiwch fod ymwelwyr wedi bod dan gyfyngiadau teithio ac efallai eu bod yn cael anhawster ymdopi
- **Dylai'r negeseuon fod yn ddwyieithog yn ddiodyn**

I weld enghreifftiau o arwyddion ar safleoedd, ewch i wefannau [Parc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd](#), [Parc Cenedlaethol Dyffrynnoedd Swydd Efrog](#) a [Pharc Cenedlaethol y Peak District](#).

Atodiad 1: Crynodeb o weithgareddau sectoraidd yn ystod pob cam

Gan fyfyrion ar yr egwyddorion a'r canllawiau sydd eisoes wedi'u hamlinellu yn y ddogfen hon, isod ceir crynodeb o'r camau gweithredu y bydd rheolwyr safleoedd naturiol a diwylliannol awyr agored yn eu cymryd wrth i'r cyfyngiadau symud godi.

Cyfyngiadau symud

- Y rhan fwyaf o safleoedd naturiol a diwylliannol yng Nghymru ar gau. Dim ond mynediad lleol ar droed neu feic gan ddefnyddio hawliau tramwy cyhoeddus.
- Hawliau mynediad wedi'u hatal yn y cyrchfannau ymwelwyr proffil uchaf.
- Cyfathrebu cenedlaethol am aros yn lleol a chyfrifoldeb personol.

Coch

- Efallai y gall safleoedd naturiol a diwylliannol awyr agored o ddiddordeb lleol ailagor cyn gynted ag y bydd gallu cyffredinol i deithio'n lleol yn y car er mwyn gwneud ymarfer corff ac at ddibenion hamdden. Mae hyn yn amodol ar allu'r sefydliad i reoli ymwelwyr mewn ffordd ddiogel. Mae safleoedd/lleoliadau sy'n cael eu hyrwyddo'n rhanbarthol neu'n genedlaethol yn parhau i fod ar gau.
- Mesurau i hwyluso cadw pellter cymdeithasol ar waith mewn safleoedd prysurach neu fannau cyfyng ar safleoedd, yn unol â chanllawiau'r Grŵp Diogelwch Ymwelwyr. Gall rhai cyfleusterau safleoedd gael eu hagar, lle gall mesurau diogelwch priodol gael eu rhoi ar waith.
- Cyfyngiadau mynediad yn dal i fod ar waith yn y safleoedd proffil uchaf.
- Cyfathrebu cenedlaethol am aros yn lleol a chyfrifoldeb personol.

Oren

- Bydd bron yr holl safleoedd naturiol a diwylliannol awyr agored yn cael eu hailagor pan fydd Llywodraeth Cymru'n codi'r cyfyngiadau ar deithio at ddibenion hamdden.
- Bydd cyfyngiadau mynediad yn debygol o fod ar waith o hyd yn y safleoedd proffil uchaf. Bydd yr awdurdodau perthnasol yn parhau i adolygu'r sefyllfa.
- Bydd mesurau cadw pellter cymdeithasol ar waith ar safleoedd prysurach (neu fannau cyfyng). Caiff mwy o gyfleusterau safle eu hailagor i fynd i'r afael â'r cynnydd mewn galw. Gall rhai gwasanaethau masnachol ailddechrau lle gall mesurau diogelwch priodol gael eu rhoi ar waith.
- Gall rhai digwyddiadau gael eu hystyried, gyda chyfyngiad ar nifer y bobl a gweithdrefnau cadw pellter cymdeithasol ar waith.
- Cyfathrebu cenedlaethol am fod yn ddiogel ac ymddwyn mewn modd cyfrifol.

Gwyrdd

- Pan fydd cyfyngiadau ar deithio a gweithgareddau diwylliannol a hamdden yn cael eu codi'n llawn, caiff yr holl safleoedd naturiol a diwylliannol awyr agored eu hailagor, oni bai fod materion diogelwch eithriadol.

- Bydd cyfyngiadau mynediad yn cael eu codi. Efallai y bydd ychydig o "gyrchfannau ymwelwyr byd-enwog" lle bydd rhai cyfyngiadau ar waith o hyd i atal symudiad cyhoeddus torfol rhwng ardaloedd.
- Bydd mesurau cadw pellter cymdeithasol ar waith ar safleoedd prysurach (neu fannau cyfyng). Gwasanaethau masnachol i ailddechrau lle gall mesurau diogelwch priodol gael eu rhoi ar waith.
- Bydd digwyddiadau'n ailddechrau, gyda chyfyngiad ar nifer y bobl a gweithdrefnau cadw pellter cymdeithasol ar waith.
- Cyfathrebu cenedlaethol am fod yn ddiogel ac ymddwyn mewn modd cyfrifol.

Atodiad 2: Matrics Rheoli Risg y Grŵp Diogelwch Ymwelwyr

Lefel gyffredinol o ddefnydd ymwelwyr, lleoliad a thirwedd

Annatblygedig

Cefn gwlad gwyllt a garw; coedwigoedd a thirweddau ynysig. Niferoedd isel iawn o ymwelwyr.

Wedi'u datblygu ychydig

Coedwigoedd, rhostir, arfordir a chefn gwlad ehangach; ffermdir eang; dyfrffyrdd ynysig. Nifer isel o ymwelwyr.

Wedi'u datblygu'n gymedrol

Cyrion trefol; parciau gwledig; tir sy'n cael ei ffermio'n ddwys; coedwigoedd hamdden; dyfrffyrdd prysur. Nifer cymedrol o ymwelwyr.

Wedi'u datblygu'n ddwys

Amgylchedd trefol; tirwedd hawdd; llwybrau ag arwynebedd; adeiladau a glannau canol dinas; cyfleusterau wedi'u staffio. Niferoedd uchel o ymwelwyr.



Lefel sgîl, hunandibyniaeth a chyfrifoldeb personol yr ymwelwyr

Uwch

Disgwylir sgiliau diogelwch, cynllunio, hyfforddiant a phrofiad personol cymwys. Ymwelwyr yn derbyn cyfrifoldeb dros eu diogelwch eu hunain.

Cymedrol

Mae sgiliau, ymwybyddiaeth o risgiau a hunandibyniaeth yn bwysig. Mae ymwelwyr yn deall eu hamgylchedd ac yn cymryd peth cyfrifoldeb dros eu diogelwch eu hunain.

Isel

Anogir hunandibyniaeth, ymwybyddiaeth o risgiau a chyfrifoldeb personol ond nid ydynt yn cael eu disgwyl. Mae gan ymwelwyr beth profiad a gwybodaeth am eu hamgylchedd.

Ychydig

Ni ddisgwylir unrhyw brofiad blaenorol. Dylai ymwelwyr ddilyn cyngor a gweithredu'n gyfrifol.



Lefel yr ymyrraeth gan reolwyr

Ychydig

Mesurau diogelwch corfforol yn annhebygol. Nid yw gwybodaeth arferol am amodau'r safle'n debygol ond gwneir trefniadau mewn amgylchiadau eithriadol.

Isel

Mesurau diogelwch corfforol ond yn debygol ar gyfer risgiau uchel. Gwybodaeth ac arwyddion cyfyngedig yn bosib.

Cymedrol

Rhai ymyriadau corfforol ar gyfer risgiau sylweddol yn debygol. Rhai arwyddion rhybudd, taflenni a phresenoldeb staff achlysurol o bosib.

Uwch

Mesurau diogelwch corfforol yn debygol. Ymwelwyr yn rheoli risgiau i ymwelwyr tro cyntaf yn weithredol. Arwyddion rhybuddio, gwybodaeth fanwl am beryglon a phresenoldeb staff rheolaidd ar y safle'n debygol.

Cyhoeddwyd gan:

Cyfoeth Naturiol Cymru

Tŷ Cambria

29 Heol Casnewydd

Caerdydd

CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun – Gwener, 8am – 6pm)

ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

www.cyfoethnaturiol.cymru

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Gellir dim ond atgynhychu'r ddogfen hon trwy ganiatâd o flaen llaw gan

Cyfoeth Naturiol Cymru.